## Y FFOREST FAWR

Mae creigiau'r ardal yn debyg i greigiau y Mynydd Du, ac ynghyd â'r Mynydd Du, dynodwyd yr ardal gyfan yn Geoparc yn 2005. Mae gan yr ardaloedd calchfaen rai o'r systemau ogofâu mwyaf ym Mhrydain.

**Carn y Goetre SN 945142**
Mae'n debyg bod yr enw wedi'i gymryd o'r eiddo o'r enw Goitre (940143), a welir wrth droed y bryn', Goytre yn 1832 ar fap yr AO. Mae'r gair coetref yn deillio o coe(d) 'coedwig' + tref 'trigfan', sef rhyw fath o anheddiad mewn ardal goediog. Term cyffredin yng Nghymru sydd i'w weld mewn sawl ffurf: goetre, goytref, goitre, coitrei.

**Carreg Lem SN 893144**
Carreg 'craig' + llem 'miniog', ffurf benywaidd y gair llym. Ond weithau fe welir cymysgedd gyda llam 'naid'. Carreg Llem 1832 AO.

**Carreg Lwyd SN 862154**
Carreg 'craig' gyda agwedd ogleddol, yn y cysgod am gyfnodau hir; neu, lliw y creigiau. Carreg llwyd 1832 AO.

**Craig Cerrig Gleisiaid SN 963217**
Mae rhai yn cynnig gleisiaid 'grils, eog ifanc' ar gael, ond mae'r nentydd braidd yn uchel; neu, term sy'n cyfeirio at greigiau llwyd neu lasgoch; neu, yn ffigurol at offeiriaid mynachod oherwydd eu clogynnau. Y tebygrwydd yw mai llygriad y gair cleisiau sydd, sef ffurf luosog y gair clais 'rhigol, rhych, agen'; i ddynodi clogwyn gyda hafnau dwfn yn ei wyneb.

**Craig Cwm Du SN 945213**
Enw a godir o'r enw'r dyffryn. Mae'r graig yn enghraifft dda o safle mewn cysgod yr haul oherwydd ei agwedd Ogleddol; enwedig gan ei fod wedi ei leoli mewn cwm dwfn.

**Craig Penmailard SO 016097**
Heddiw, enw'r bryn yw Penmoelallt; ond, Penmailard yw'r enw sydd i'w weld ar fapiau cynnar y AO yn 1832 i'r bryn a safle'r hen fferm. Yn hwyrach, ar fapiau 1892 fe welir Penmailard fel enw'r clogwyn hefyd. Fe geir meilart fel amrywiad ar y gair marlat 'ceiliog chwid', sydd wedi'i fenthyg o'r Hen Ffrangeg malart, mallart 'ceiliog chwid gwyllt'. Enw digon anghyffredin yn y dirwedd os yw'n gywir; er y gallai fod nodwedd debyg i ben hwyaden ar y graig, neu fan ble gesglir yr hwyaid? Mae'n sicr y bod ystyr dyfnach i'r enw; rhaid nodi'r gair mael 'pennaeth' a'i ffurf amrywiol mail er enghraifft. Fe welir Pen Mallard Hills 1729 Bowen, Mynydd Penmailard & Penmailard 1832 AO.

**Craig Rhiwarth SN 844157**
Mae bryngaer o'r Oes Haearn ar ben y graig 'clogwyn'. Mae mewn lleoliad trawiadol sy'n dominyddu rhan uchaf dyffryn Tawe a'r llwybrau i'r Gogledd drwy'r mynyddoedd. Mae'r termau rhiw 'llethr serth' + (g)arth 'crib, penrhyn' yn ddau yn addas iawn, gan fod yr enw yn dynodi pen serth cefnen amlwg. Oherwydd y fryngaer, gall ystyr arall y gair garth 'encilfan, caer' fod yn gywir hefyd.

**Craig y Fro SN 970207**
Yn yr ardal yma nid bro 'gwlad, tir, cynefin'; ond bro 'dyffryn, iseldir' sydd, sef enw sy'n cyfeirio at graig yn isel yn y dyffryn. Craig y Fro 1832 AO.

**Y Garreg Lwyd SN 950129**
Gelwir y garreg yn un llwyd oherwydd y brigiadau calchfaen noeth yn yr ardal. Fodd bynnag, ar un adeg roedd y term llwyd yn ddisgrifydd lletach ar liwiau yn y dirwedd, o felyn gwan drwy goch i

Mynyddoedd.co.uk

frown.

**Y Glog Las SN 958144**
Y tebygrwydd yw mai'r gair clog 'clogwyn, carreg' sydd + glas 'llwyd' neu 'llwydwyrdd' yn lliw a welir yn aml mewn creigiau calchfaen, nid y glas neu wyrdd fel y'i defnyddir heddiw. Mae'r AO yn rhoi'r enw fel Glôg Las, sy'n cysylltu'r enw a'r gair clôc, clôg 'mantell, gorchudd'; yn deillio naill ai o'r Saesneg Canol cloke 'mantell' neu'r Lladin cloca, clocca 'mantell'

**Y Graig Llech SN 846121**
Mae yn lleoliad o lethrau serth uwchben yr afon Nant Llech, nid oes llech mewn gwirionedd fel yn 'craig, clogfaen, clogwyn'; fodd bynnag, mae gwely'r afon yn llechog mewn rhai mannau.

**Saith Maen SN 862147**
Mae'r maen 'carreg, craig' yn syml, ond ai'r rhif saith neu'r arf saeth sydd yma? Gall saith yn yr enw ddynodi grŵp neu aliniad o saith craig, fel sydd 3km i ffwrdd ar ochr arall Dyffryn Tawe, yn (SN 833154). Sylwch fod mapiau AO 1832 â'r enw Saethmaen ac yn hwyrach Saeth maen.

Mynyddoedd.co.uk